**Ymateb gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru 'Deddf Cydraddoldeb 2010: Cychwyn y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol'**

Rwy'n falch o gael y cyfle i ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru 'Deddf Cydraddoldeb 2010: Cychwyn y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol'.

Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), rwy'n ymchwilio i gwynion a wnaed gan aelodau o'r cyhoedd sy'n credu eu bod wedi dioddef caledi neu anghyfiawnder drwy gamweinyddiaeth neu fethiant gwasanaeth gan gorff o fewn fy awdurdodaeth, sydd yn ei hanfod yn cynnwys yr holl sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u datganoli i Gymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- llywodraeth leol (cynghorau sir a chynghorau cymuned)
- y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (gan gynnwys Meddygon Teulu a deintyddion)
- landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (cymdeithasau tai)
- Llywodraeth Cymru, ynghyd â'i chyrff noddedig.

Rwyf hefyd yn gallu ystyried cwynion am ofal cymdeithasol a drefnwyd yn breifat neu ofal cymdeithasol a ariennir, yn ogystal â gwasanaethau gofal lliniarol ac, o dan amgylchiadau penodol, agweddau o ofal iechyd a ariennir yn breifat.

**Cyd-destun**

Rwy'n ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn rhinwedd fy swyddogaeth fel cyflogwr ac arweinydd corff cyhoeddus yng Nghymru, sy'n rhwym wrth ddyletswyddau perthnasol eraill (e.e. dyletswydd cydraddoldeb). Rwyf yn ymrwymedig i'r egwyddor wrth sail y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol arfaethedig.

**Cwestiwn 1**

Ymddengys y diffiniadau o 'benderfyniad strategol' ac 'anfantais economaidd-gymdeithasol' a gynigir yn y ddogfen ymgynghori yn gynhwysfawr, yn rhesymol ac yn gymesur.

Mae'r diffiniad o 'anghydraddoldebau o ran canlyniad' yn fwy agored a, fel y cydnabyddir yn y ddogfen ymgynghori, gall ei ganolbwynt amrywio yn dibynnu ar swyddogaeth graidd pob corff cyhoeddus. Fodd bynnag, nid yw'n glir imi ar yr olwg gyntaf sut y bydd asesiad effaith ar fesurau anghydraddoldeb o dan Ddangosyddion Llesiant Cenedlaethol yn cael ei gysoni â'r asesiad effaith o dan y ddyletswydd

cydraddoldeb.  Mae posibl y bydd angen rhoi mwy o sylw ac arweiniad i hyn, yn enwedig o gofio'r dewis a fynegwyd yn y ddogfen ymgynghori am asesiad effaith o'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a chysoni'r ddyletswydd cydraddoldeb.

**Cwestiwn 2**

Er nad yw fy swyddfa yn bodloni'r prawf a nodir yn Adran 2(6) Deddf Cydraddoldeb 2019 (sy'n pennu'r awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru a ddylai fod wedi'u rhwymo gan y ddyletswydd), rwyf yn ymrwymedig i weithredu yn unol ag ysbryd y ddyletswydd ac i blannu ystyriaethau anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol ym mhob agwedd ar fy ngwaith.  Er enghraifft,

- diogelwyd fy swyddfa rhag y dyfodol gan y Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019.  Nawr fy mod gennyf y pŵer i gymryd cwynion ar lafar ac ymgymryd ag ymchwiliadau ar fy liwt fy hun, rwyf mewn lle gwell i ymdrin â heriau'r gymdeithas heneiddiol, i hyrwyddo a chadarnhau cyfiawnder cymdeithasol a chynorthwyo'r sawl sydd fwyaf bregus.
- mae fy Nghynllun Cydraddoldeb diweddar (hefyd ar gael mewn fersiwn Hawdd ei Ddarllen) yn cynnwys ymroddiad i ddechrau casglu data am ddyletswyddau gofal fy achwynwyr, staff ac ymgeiswyr am swyddi, yn ogystal ag adolygu sut yr wyf yn casglu gwybodaeth am statws economaidd-gymdeithasol achwynwyr.  O dan y Cynllun, byddaf hefyd yn adolygu fy offeryn Asesu Effaith Cydraddoldeb, a byddaf yn ystyried sut i'w gyfuno gyda phob ystyriaeth i anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol i'r weithdrefn asesu.

**Cwestiwn 3**

Ar y cyfan, rwy'n credu y dylai disgwyliadau a gofynion y cyrff cyhoeddus perthnasol o dan y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol fod yn gymesur â'u gallu, natur y gweithrediadau a'r effaith tebygol.

Mae'r gofynion awgrymedig i'r cyrff cyhoeddus perthnasol asesu effaith eu penderfyniadau startegol o boblogaethau sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn rhesymol.  Fodd bynnag, fel y mynegir uchod (Q1), efallai fod angen rhoi mwy o feddwl i sut y dylid cysoni'r gweithdrefnau ar gyfer asesu effaith a monitro o dan y ddyletswydd cydraddoldeb a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol.  Er fy mod yn cytuno y dylid integreiddio'r gweithdrefnau hyn a dylai hwy fod yn gyd-atgyfnerthol, gall hyn fod yn heriol gan fod y ddwy ddyletswydd yn amrywio'n sylweddol o ran cwmpas (e.e. nid yw'r Ddeddf 2010 yn sefydlu gwahaniaethu economaidd-gymdeithasol).

**Cwestiwn 4**

Ar y cyfan, rwy'n credu y dylai'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ychwanegu gwerth at y dyletswyddau sydd mewn bodolaeth, yn ogystal â'r rhai cynlluniedig (e.e dyletswydd cydraddoldeb, dyletswydd llesiant, partneriaeth gymdeithasol a dyletswydd gwaith teg).  Dylai'r dyletswyddau hyn fod yn gyd-atgyfnerthol, heb greu unrhyw lwyth gweinyddol diangen neu gymhlethdod.

Er ei bod yn rhesymol disgwyl i bob corff reoli'r cysylltiadau rhwng eu hamrywiol ddyletswyddau statudol a'u hymrwymiadau gwirfoddol, cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod cysondeb yn y gofynion a'r canllawiau ar gyfer asesu, adrodd a monitro o dan bob dyletswydd (gan gynnwys yr amserlen ar gyfer y prosesau hyn). Yn ychwanegol, dylai'r Llywodraeth Cymru sicrhau bod y data i gynorthwyo'r cyrff cyhoeddus i gydymffurfio â'r ddyletswydd yn gyfamserol, yn gynhwysfawr ac ar gael yn hawdd.

**Sylwadau cloi**

Rwy'n hyderu y byddwch chi yn gweld fy sylwadau yn ddefnyddiol.  Os dymunwch drafod unrhyw un o'r pwyntiau a wneuthum, mae croeso i chi gysylltu ag Ania Rolewska, Pennaeth Polisi (ania.rolewska@ombwdsman.wales).



**Nick Bennett**
**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
**Ionawr 2020**
*******************************************************************************